# Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Strategaeth a Ffefrir Cynllun Datblygu Lleol Diywgiedig Sir Fynwy

## Cylfwyniad

Apwyntiwyd AECOM gan Gyngor Sir Fynwy (CSF) er mwyn cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'i Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig, sydd amlinellu'r datblygiadau yn Sir Fynwy rhwng 2018 a 2033 sydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer tua 5,400 - 5,940 o aneddiadau preswyl newydd, 38 hectar o dir cyflogaeth a 6,240 o swyddi newydd. Nod yr asesiad hwn yw nodi unrhyw agweddau o'r Cynllun a allai gael effaith adweithiol ar hygrededd safleoedd bywyd gwyllt sydd o bwys rhyngwladol, sydd fel arall yn cael ei adnabod fel safleoedd Ewropeaidd (Ardaloedd o Gadwraeth Arbennig, Ardaloedd o Warchodaeth Arbennig, ac fel rhan o bolisi'r Llywodraeth, safleoedd a Ramsar), naill ai ar ben eu hunain neu mewn cyfuniad gyda chynlluniau a phrosiectau eraill, ac yn rhoi cyngor ar y mecnaweithiau polisi priodol ar gyfer darparu mesurau lliniaru os ydy'r effeithiau wedi eu nodi. Fodd bynnag, gan fod y CDLID yn ystod y camau cychwynnol, nid yw'n amlinellu dyraniadau'r safleoedd penodol neu'r geiriad polisi manwl. Tra ei fod yn cynnwys Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir ym Mholisi S7 ac yn Atodiad 5, efallai y bydd rhain yn cael eu newid rhwng y Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adneuo. Yn sgil hyn, mae'r Asesiad Priodol (yr ail gam o'r broses ARhC) o'r rhai llwybrau effaith yn cael eu hoedi tan ARhC y Cynllun Adneuo a bod meysydd gwaith eraill wedi eu nodi, a hynny er mwyn llywio'r ARhC.

## Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae'r angen am asesiad o'r effaith ar safleoedd Ewropeaidd wedi ei amlinellu yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygir). Er mwyn cadarnhau a fydd hygrededd y safleoedd Ewropaidd yn cael eu heffeithio, rhaid i awdurdod cymwys gynnal ARhC o'r cynllun neu'r prosiect, gan gynnwys Asesiad Priodol os oes angen, cyn cymeradwyo hyn.

## Sgôp

Yn sgil asesiad cychwynnol o'r safleoedd Ewropeaidd perthnasol o fewn 15 cilomedr o Sir Fynwy a'r effaith ar y llwybrau sydd yn bresennol, mae'r ARhC yn mynd i'r afael gyda'r safleodd Ewropeaidd canlynol: **ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga, ACA Coetiroedd Cwm Clydach, ACA Coetiroedd Dyffryn Gwy, ACA Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Ffores y Ddena, AGA / Ramsar Aber yr Afon Hafren, ACA Afon Gwy, ACA Coetiroedd Avon Gorge, ACA Afon Wysg, ACA Glaswelltiroedd Aberbargoed, ACA Coetiroedd Pen-y-fâl, ACA Llyn Llangors ac ACA Coed y Cerrig.**

## Tasgau ARhC

Ar ôl casglu'r dystiolaeth gychwynnol, cam cyntaf yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw sgrinio ar gyfer Effeithiau Sylweddol Tebygol (EST), sef asesiad o'r risgiau ar gyfer safleoedd Ewropaidd gyda chynllun datblygu. Os nad oes modd diystyru'r EST, a bod yna fecanwaith ar gyfer rhygnweithio adweithiol rhwng cynllun a safle penodol yn bresennol, rhaid cynnal y cam nesaf o'r ARhC, sef Asesiad Priodol. Mae'r Asesiad Priodol yn ddadansoddiad mwy manwl o'r llwybrau effaith a'r safleoedd Ewropeaidd sy'n cael eu hystyried yn ystod y cam sgrinio. Un o'r elfennau allweddol o'r Asesiad Priodol yw ystyried y mesurau lliniaru sydd yn medru amddiffyn safle Ewropeaidd rhag effeithiau niwiediol posib[1]. At hyn, roedd dyfarniad diweddar wedi sefydlu bod cynfeinoedd neu rwyogaethau y tu hwnt i safle Ewropeaidd, sydd yn hanfodol ar gyfer sut y mae'r safle a ddiogelir yn gweithredu, yn gorfod cael eu hystyried yn y broses ARhC[2]. Ar gyfer yr ARhC, roedd Tasg 1 (Sgrinio ar gyfer Effeithiau Sylweddol Tebygol) a Thasg 2 (Asesiad Priodol) wedi eu cynnal.

[1] Yn ôl penderfyniad gan Lys Cyfiawnder Ewrop, nid oes modd ystyried y rhain yn ystod cam sgrinio yr ARhC -mPeople Over Wind and Sweetman v Coillte Teoranta (C-323/17)

[2] Dyfarniad Holohan 2018. Achos C-461/17

**Canfyddiadau ac Argymhellion**

Mae'r ARhC yn dangos fod Effeithiau Sylweddol Tebygol yn medru cael eu diystyru ar gyfer y llwybrau effaith a nodir ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, yn sgil cyfuniad o'r dystiolaeth wyddonol sydd ar goll (h.y. nid oedd modelu ansawdd aer neu ddata am ymwelwyr ar gael) a'r diffyg manylder yn y Strategaeth a Ffefrir cyfredol (h.y. dim ond y Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir sydd wedi eu nodi, geiriad polisi cyfyngedig), bydd Asesiad Priodol manwl o'r llwybrau effaith canlynol sydd yn ymwneud gyda'r safleoedd Ewropeaidd penodol yn rhan o ARhC y Cynllun Adneuo:

- Mae Llygredd atmosfferig yn effeithio ar ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga, ACA Coetiroedd Cwm Clydach, ACA Coetiroedd Dyffryn Gwy ac ACA / AGA/ Ramser Aber yr Afon Hafren
- Pwysau hamdden ACA Aber yr Afon Hafren / SPA / Ramsar, ACA Coetiroedd Dyffryn Gwy ac ACA Afon Gwy.
- Tir sy'n gysylltieidg o ran swyddogaethd a'n ymwneud gyda ACA / AGA/ Ramser Aber yr Afon Hafren, ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga, ACA Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest Ddena a ACA Coetiroedd Dyffryn Gwy.
- Ansawdd dŵr yn ACA Afon Gwy ac ACA Afon Wysg
- Swm, lefel a llif y dŵr yn ACA Afon Gwy ac ACA Afon Wysg

O ran y llygredd atmosfferig, nid oes modd diystyru'r effeithiau adweithiol ar hygrededd y safleoedd yn ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga, ACA Coetiroedd Cwm Clydach, ACA Coetiroedd Dyffryn Gwy a ACA / AGA / Ramsar Aber yr Afon Hafren, oherwydd nid yw modelu ansawdd yr aer ar gyfer y cynefinoedd sensitif o fewn y safleoedd yma ar gael. **Mae'n cael ei argymell y dylid modelu isafswm o drawslunio un heol** yn ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga a ACA Coetiroedd Cwm Clydach er mwyn llywio ARhC y Cynllun Adneuo. Dylid modelu'r trawslun ar hyd yr M4 a M48, gan groesi ACA / AGA / Ramsar Aber yr Afon Hafren o fewn 200m o forfa heli'r arfordir. At hyn, yn sgil hyd ACA Ceotiroedd Dyffryn Gwy ar hyd llwybr cymudo de-gogledd posib, caiff ei argymell fod **dau drawslun yn cael ei fodelu** ar hyd y safle yma.

O ran pwysau hamdden ar ACA / AGA / Ramsar Aber yr Afon Hafren, rydym yn dod i'r casgliad, yn sgil y dyraniad o aneddiadau preswyl newydd yn Sir Fynwy a bod yna bwyntiau mynediad addas i'r AGA / Ramsar yn yr awdurdod, mae angen tystiolaeth bellwch. **Bydd hyn yn cynnwys arolwg ymwelwyr** ar y ddau bwynt mynediad a nodir (maes parcio Safle Picnic Black Rock, llwybr arfordir Cil-y-coed), **ymchwiliad i'r defnydd hamdden o'r parseli tir sydd yn gysylltiedig** yn ne Sir Fynwy a, ac os yw'r arolwg ymwelwyr yn dynodi'r angen am hyn, bydd angen sefydlu **Strategaeth Osgoi Dros Dro**. At hyn, rydym yn argymell cyflwyno'r geiriad polisi diogelu i mewn i'r Cynllun Adneuo, sydd yn asesu pa mor dderbyniol yw'r cynigion sydd yn cynyddu mynediad hamdden at elfennau ACA sensitif (gweler yr ARhC am y geiriad polisi manwl). Nodir hefyd fod angen tystiolaeth bellach o'r arolygon ywmelwyr er mwyn mynd i'r afael gyda'r goblygiadau ar gyfer twf tai ar gyfer pwysau hamdden yn ACA Coetiroedd Dyffryn Gwy ac ACA Afon Gwy. Bydd data o'r arolygon yn llywio ARhC y Cynllun Adneuo.

Nid oes modd diystyru effeithiau negatif ar hygrededd y safle o ran y tir sydd yn gysylltiedig gydag ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga, ACA Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena, ACA Coetiroedd Dyffryn Gwy ac ACA / AGA / Ramsar Aber yr Afon Hafren, gan fod y Dyraniadau Safle Strategol a Ffefrir yng Nghas-gwent a Severnside yn cynnwys cynefinoedd addas ac yn ddigon mawr i gefnogi elyrch Bewick, ystlumod trwyn pedol mwy ac ystlumod trwyn pedol llai. Mae Asesiad Priodol manwl o'r llwybr effaith yma yn mynd i fod yn rhan o ARhC y Cynllun Adneuo pan fydd y dyraniadau safle ar gael. Fodd bynnag, er mwyn helpu lleihau'r potensial am effeithiau adneuol, caiff ei argymell y dylid gosod **geiriad polisi diogelu yn y Cynllun Adneuo sydd yn cydnabod y pwysigrwydd o gynefinoedd sydd wedi eu cysylltu gyda'r mannau ACA yma, gan gynnwys y Parthau Cynhaliaeth Craidd arferol o 2km a 3km,** ar gyfer ystlumod trwyn pedol mwy ac ystlumod trwyn pedol llai (gweler yr ARhC am eiriad mwy manwl). Mae'r geiriad a argymhellir hefyd yn mynd i'r afael gydag effaith goleuadau ar nodweddion cymudol lleol a'r cynefinoedd ar gyfer chwilio am fwyd ymhlith ystlumod. Mae tystiolaeth wyddonol yn awgrymu bod chwilio am fwyd / a neu gymudo y tu hwnt i'r

safleoedd dynodedig y tu hwnt i'r ffiniau safle dynodedig a chynefinoedd a ddefnyddir gan ystlumod i chwilio am fwyd. Mae tystiolaeth wyddonol yn dynodi fod cynefinoedd chwilio am fwyd a / neu gymudol y tu hwnt i'r ffiniau safleoedd dynodedig yn hanfodol ar gyfer hygrededd ACA ystlumod. At hyn, caiff ei argymell, o ran ACA / AGA / Ramsar Aber yr Afon Hafren a'r safleoedd maes glas a chlustnodi sydd o faint digonol (o leiaf 2ha) yn ne Sir Fynwy, **bod yna eiriad polisi sydd yn golygu bod angen asesiad cynefinoedd manwl ac os yw'n addas, arolygon adar** yn cael ei osod yn y Cynllun Adneuo (gweler ARhC am y geiriad manwl).

**O ran ansawdd dŵr**, bydd Asesiad Priodol manwl yn cael ei gynnal ar gyfer y Cynllun Adneuo, pan mae'r dosbarthiad gofodol a chwantwm o ran y datblygiadau ac effaith hyn ar y seilwaith Trin Dŵr Gwastraff yn cael ei ddiffinio yn fwy manwl. Fodd bynnag, yn sgil sensitifrwydd yr afonydd ACA ar y llwybrau effaith yma, **caiff ei gydnabod fod y mesurau lliniaru o ran y geiriad polisi angen ei osod yn y Cynllun Adneuo.** Mae hyn er mwyn cydnabod yr adolygiad o'r trwyddedi rhyddhau ffosffadau ar gyfer Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff sydd yn cael ei gynnal gan Gyfoeth Naturiol Cymru. At hyn, mae'r argymhelliad polisi yn golygu bod angen sicrhau niwtraliaeth o ran ffosffadau, tan fod yna ddatrysiad strategol ar gael. Mae'r cyfrifiadau a wneir yn dynodi bod y Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir yn y Fenni yn arwain at ormod o ffosffadau yn ardal dalgylch Afon Wysg. Nid oes yna unrhyw ddyraniadau strategol yn cael eu cynnig yn ardal dalgylch rhan uchaf yr Aon Gwy. Fodd bynnag, efallai y bydd yna ddatblygiadau ar hap yn yr ardal a dyraniadau safle y CDLlD cyfredol yn Nhrefynwy yn cael eu cyflwyno yn y Cynllun Adneuo, ar yr amod bod yn ddatrysiad strategol i'r broblem ynglŷn â ffosffadau yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod CDLlD. Mae mesurau lliniaru, sydd wedi eu teilwra i'r cwantwm a'r dosbarthiad gofodol sydd wedi eu clustnodi yn y Cynllun Adneuo, eu hangen ar gyfer dyraniadau strategol yn y Fenni er mwyn caniatáu unrhyw ddatblygiadau.

Yn olaf, o ran swm, lefel a llif dŵr ACA Afon Gwy ac ACA Afon Wysg, mae adolygiad o Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Dŵr Cymru yn dynodi na fydd y twf a ddisgwylir yn arwain at ddiffyg yn y cydbwysedd cyflenwi-galw (sydd yn ystyried y pwysau a fydd yn y dyfodol ar adnoddau dŵr yn sgil newid hinsawdd), gan olygu na fydd hawl tynnu mwy o ddŵr na'r hyn a ganiateir mewn trwyddedi cyfredol. Er hyn, caiff ei argymell fod **geiriad polisi yn diogelu**'r **gyfundrefn llif naturiol yn y ddwy afon** yn cael ei osod yn y Cynllun Adneuo (gweler y ARhC am y geiriad manwl).